

ECAD4010C- Dadansoddiad a gwerthusiad critigol o'r offeryn ymchwil 'Graddfa Leuven'.

Targedau o'r aseiniad diwethaf

- I bennu targedau wrth gychwyn a cheisio esbonio sut est ati i geisio eu cyrraedd.
- I ddatblygu'r sgil o aralleirio wrth gyfeirio at ddogfennaeth (er i ti eu cydnabod mewn modd addas trwy gyfeirnod).
- I ddilyn y canllawiau cyfeirnodî'n agos ar bob achlysur.

Cyflwyniad

Amcanion yr aseiniad yw asesu fideo gan ddefnyddio'r Raddfa Leuven (gwelir yn yr atodiad) ac amserlen arsylwi (gwelir yr atodiad), yn ogystal â defnyddio llenyddiaeth i gefnogi fy narganfyddiadau. Trafodaf y fideo lle mae disgyblion mwy hŷn y cyfnod sylfaen yn cydweithio i gwblhau helpa trysor yn yr awyr agored trwy gyflawni gweithgareddau megis adeiladu cwch, creu map a chwarae rôl morladron. Y cwestiwn ymchwil yw; 'I ba raddau y mae'r amgylchedd dysgu awyr agored yn darparu cyfleoedd ar gyfer cynnwys disgyblion a dysgu?', felly ymchwiliat i bwysigrwydd y tu allan fel amgylchedd dysgu gan eu bod yn bwyslais enfawr yn y Cyfnod Sylfaen a Chwricwlwm newydd i Gymru. Sonnir yn y Fframwaith Cyfnod Sylfaen am bwysigrwydd yr amgylchedd dysgu i ddatblygiad plentyn; "mae amgylchedd dan do ac awyr agored sy'n llawn hwyl, yn gyffrous, yn ysgogol ac yn ddiogel, yn hybu datblygiad plant a chwilfrydedd naturiol i ymchwilio a dysgu trwy brofiad" (Llywodraeth Cymru, 2015). Hefyd dywed Learning Through Landscapes Cymru (2014);

'Mae pwyslais cryf ar ddysgu awyr agored yn y Cyfnod Sylfaen. Dylai'r amgylchedd dysgu awyr agored fod yn estyniad o'r amgylchedd dysgu dan do. Dylid cynllunio gweithgareddau strwythuredig sy'n rhoi profiadau ar gyfer y diwrnod cyfan a chyn belled ag y bo modd, dylai plant gael symud yn rhwydd rhwng y tu mewn a'r tu allan (gan gadw mewn cof iechyd a diogelwch).'

**Chwarae a Dysgu Gweithredol
Llywodraeth y Cynulliad**

Yn ogystal â hyn wrth arsylwi canolbwyntiaf ar ymddygiad dair disgybl gan ddefnyddio canllawiau Graddfa Leuven i asesu eu lles a chynhwysiant. I nodi'r canlyniadau'n glir a chryno wnes i greu amserlen arsylwi sy'n cyd-fynd gyda'r Graddfa Leuven.


Adolygiad Llenyddiaeth

Y Cyfnod Sylfaen yw cwricwlwm unigryw i Gymru ar gyfer pob plant 3-7 oed. Cyflwynir y Cyfnod Sylfaen oherwydd creda'r llywodraeth bydden buddiol i blant dysgu trwy chwarae, archwilio a gweithgareddau ymarferol (Burns, 2008). Hybir y Cyfnod Sylfaen cyfleoedd cyfartal, annibyniaeth ac archwilio, cwmpasu anghenion a sgiliau plant ar draws y cwricwlwm, gan adeiladu ar eu profiadau dysgu a gwybodaeth flaenorol (Llywodraeth Cymru, 2015). Yn nŵl Llywodraeth Cymru (2008);

Defnyddir y term 'addysgeg' i gyfeirio at y berthynas gymhleth rhwng dysgu ac addysgu. Mae'n cynnwys y cysyniad o'r ymarferydd fel hwylusydd dysgu, gan ymateb i anghenion unigolion, parodrwydd i ddysgu ochr yn ochr â'r plant, defnyddio dulliau priodol i reoli'r broses ddysgu a myfyrio'n barhaus ar arfer a'i gwella o ganlyniad i waith ymchwil.

Ystyrir yr amgylchedd fel y trydydd athro oherwydd y dylanwad sydd ganddo ar addysg disgyblion (Thornton, 2016). Creda Reggio Emilia mewn creu amgylchedd croesawgar i annog datblygiad plant, pwysleisia Malaguzzi (1998); "dylai'r amgylchedd gweithredu fel acwariwm, yn adlewyrchu syniadau, moeseg ac agweddau o'r rhai sy'n byw tu mewn" (dyfynnwyd gan Thornton, 2016), sydd felly'n atgyfnerthu'r addysgeg o ystyried a chynnwys diddordebau plant. Yn y Cyfnod Sylfaen ceisia Cymru annog defnydd cyson o'r awyr agored a dysgu trwy brofiad oherwydd maen nhw'n addysgedau hanfodol (Llywodraeth Cymru, 2009). Dywed Llywodraeth Cymru (2009) wrth dreulio amser yn yr awyr agored bydd gwellhad yn ddatblygiad corfforol, cymdeithasol, emosiynol a phersonol plentyn. Hefyd cynigir cyfleoedd i fod yn greadigol, defnyddio'r gwagle ac i gymryd risgiau (Llywodraeth Cymru, 2009). O ganlyniad i bwysigrwydd yr amgylchedd tu allan yn ystod fy mhrofiad dysgu cynlluniais gweithgaredd awyr agoed ar gyfer o leiaf un grŵp pob sesiwn, sylweddolais mwynhaodd y blant dysgu trwy brofi'r tu allan.

Mae nifer o fuddion lles i ddysgu yn yr awyr agored, dyma boster gan Gyfoeth Naturiol Cymru (dim dyddiad);



Mynegir pwysigrwydd y tu allan i gefnogi datblygiad, dysgu a lles plant gan Jan White.

Meddylia White bod chwe chydran i wneud y tu allan yn amgylchedd dysgu galluogi; defnyddio deunyddiau naturiol, defnyddio dŵr, profi profiadau gwahanol, chwarae corfforol, creadigol ac adeiladwaith (2011). Darparir y cydrannau yma sgiliau echddygol bras a man, archwilio ac amsynhwyraidd sy'n hanfodol i dyfiant (White, 2011).

Er trafodir am yr awyr agored fel amgylchedd dysgu sy'n darparu llawer o brofiadau sy'n hybu datblygiad mae rhai sialensiau hefyd. Awgrymir tystiolaeth diweddar fod fandaliaeth yn un o'r rhwystrau i ddatblygu mannau awyr agored (LTL, 2014). Serch hyn, gellir cynnwys y gymuned yn ddatblygiad mannau tu allan hybu ymdeimlad o falchder sy'n lleihau'r risg o fandaliaeth. Gellid dadlau bod y tywydd yn ffactor annarogan sy'n gallu achosi sialensiau, megis gorfod addasu eich cynllun gwers, newid adnoddau neu risg o ddamwain o ganlyniad i dywydd gwael. Serch hyn mynega 'Learning through landscapes' (LTL, 2014), "nid oes y fath beth â thywydd gwael, dim ond dillad amhriodol". Mae'n bwysig rhoi rhyddid i blant i ddysgu sut i reoli risg, ond sicrhau nad oes peryglon (LTL, 2014). Dylid archwilio'r mannau awyr agored yn rheolaidd ar gyfer peryglon megis carthion anifeiliaid neu wydr wedi torri.

Esbonia Chantrell (2015) yr her fwyaf arwyddocaol sy'n wynebu addysgeg awyr agored yw athrawon gan nad ydyn nhw'n gwerthfawrogi profiadau mae'n darparu i blant. Atgyfnertha Chantrell (2015) bod llawer o athrawon wedi'u swyno gan botensial technoleg, fodd bynnag fel ym mhob peth, mae angen gydbwysedd. Y ffactorau a rhwystrau sy'n dylanwadu'n negyddol ar ddefnydd athrawon o fannau y tu allan yw;

- Argaeledd canllawiau cwricwlwm.
- Gwybodaeth am weithgareddau awyr agored.
- Argaeledd ardaloedd awyr agored.
- Maint dosbarth.
- Pryder am iechyd a diogelwch.
- Dim hyder na sgiliau ynglŷn â sut i ddefnyddio y mannau awyr agored fel ystafell ddosbarth

Dadleua Chantrell (2015) dylai athrawon cael hyfforddiant mewn dysgu awyr agored i gydnabod bod yr awyr agored yn rhan bwysig o gymwyseddau craidd.

Methadoleg

Dywed Llywodraeth Cymru (2008) mae arsylwi'n arf hyblyg o gasglu data ansoddol a meintiol sy'n darparu gwybodaeth megis cryfderau, diddordebau ac anghenion sy'n gallu helpu dod i nabod y disgyblion. Dylai arsylwi digwydd yn ddyddiol yn y Cyfnod Sylfaen a ddim ar gyfer amseroedd penodol (Llywodraeth Cymru, 2008). Drwy arsylwi'n ofalus gall yr arsylwr cynllunio'n fwy addas i anghenion y dosbarth (Llywodraeth Cymru, 2008). Gall athrawon arsylwi yn eu dosbarthiadau gan ddefnyddio technoleg fel dyfeisiau recordio neu ffilmio (NSW Government, 2019). Ond, cyn cychwyn yr arsylwad mae angen cynllunio'n ofalus gyda dealltwriaeth glir o'r cwestiynau penodol (NSW Government, 2019). Mae'n her i ganolbwyntio ar bob gweithred y plentyn oherwydd bywiogrwydd ystafelloedd dosbarth (Llywodraeth Cymru, 2015).

I gynllunio ar gyfer arsylwi weithiau mae athrawon yn creu amserlen arsylwi. Cymerir arsylwi strwythuredig llawer o amser i baratoi, ond dylai'r dadansoddiad o'r data fod yn gyflym gan fydd y categorïau i'w gwerthuso yn yr amserlen (Cohen, Manion a Morrison, 2007). Wnes i greu amserlen arsylwi ar gyfer fy arsylwad (gwelir yn yr atodiad).

Pwysleisia Estyn (2011) bod systemau i fonitro ansawdd darpariaeth yn yr awyr agored ar waith, ond nid yw'r gwaith yn hollol canolbwyntio ar arfarnu effaith darpariaeth yn yr awyr agored ar safonau a lles plant. O bosib bydd y Raddfa Leuven yn offeryn addas i ddefnyddio i asesu yn yr awyr agored. Y Raddfa Leuven yw asesiad a ddatblygwyd gan Ferre Leavers yng Ngwlad Belg. Mae'n raddfa bum pwynt sy'n caniatáu i fesur lles a chynhwysiant plant sy'n dwy agwedd hanfodol o datblygiad (Cheqdin Childcare Software, 2019). Un o'i fanteision yw bod yn defnyddiol i wneud asesiadau o blant a rhoi dealltwriaeth ddyfnach i athrawon am eu disgyblion. Ymhellach, mae modd ymateb i'r ddarganfyddiadau trwy addasu'r amgylchedd i anghenion y dosbarth (dyfynnwyd gan C.Morgan, 2020). Yr anffanteision posib yw nad yw arsylwi unwaith yn ddigon i gasglu digon o wybodaeth. Hefyd gall disgybl bod yn hapus i gwblhau gweithgareddau, ond nid yw'n golygu eu bod yn cael eu herio a dod o hyd i gyfleoedd dysgu (dyfynnwyd gan C.Morgan, 2020).

Trafodaeth a chanlyniadau

Moes egwyddorion moesol sy'n rheoli ymddygiad unigolyn neu gynnal gweithgaredd. Yn nôl BERA (2018) anghenraid cyn cychwyn unrhyw ymchwil yw caniatâd, yn enwedig caniatâd gwybodus sef deall pwrpas yr ymchwil. Cymhlethdod yw oedran y disgybl, ar gyfer disgyblion o dan 18 mae angen caniatâd rhiant (llenwi ffurflen- gwelir yn yr atodiad), hefyd mae angen trafod gyda'r plentyn i weld os ydyn nhw'n fodlon cymryd rhan (BERA, 2018). Her gweithio gyda phlant yw maen nhw'n newid eu meddyliau'n aml, ond wrth gwerthuso eu mynegiad corfforol gallwch weld os ydyn nhw'n hapus i gydymffurfio neu beidio. Bydd rhaid i ymchwilwyr bod yn sensitif ac agored i'r posibilrwydd gallai cyfranogwyr ddymuno, am unrhyw reswm, dynnu eu caniatâd nôl (BERA, 2018). Dylid gwneud yn glir i'r cyfranogwyr y gallant dynnu'n ôl ar unrhyw adeg (BERA, 2018). Ffactor pwysig arall wrth ymchwilio yw cyfrinachedd ac anhysbysrwydd. Mae disgwyliad i bopeth fod yn anhysbys ac nad oes hawl rhannu gwybodaeth bersonol sy'n gallu adnabod yr ardal neu berson.

Ar y cyfan cydweithiodd a chyfathrebodd y grŵp yn dda iawn i adeiladu'r cwch a darganfod y trysor, ond gwelais amrywiaeth mewn ymddygiad y disgyblion, roedd rhai'n hyderus ac eraill yn 'pylu i'r cefndir'. Trafododd y disgyblion yn gyson mewn modd clir ac anogon nhw ei gilydd i ddyfalbarhau gyda'r gweithgaredd, nad oedd unrhyw gwrthdaro trwy gydol y sesiwn. Gwnaeth y plant mwynhau'r rhyddid i ddefnyddio'r amgylchedd awyr agored. Wrth

iddyn nhw gyflwyno eu darganfyddiadau i'r athrawes roedden amlwg pwy oedd yn fwy hyderus, gwnaeth rhai gwthio i'r blaen a gweiddi, lle arhosodd eraill yn y cefndir yn dawel. Arddangosodd disgybl A ei mwynhad a chyffro wrth gwblhau'r helfa trysor, roedden arwain llawn hyder ac egni, yn fynegiannol trwy wenu'n aml a siarad â'i hun. Yn nôl Graddfa Leuven dyma arwyddion cadarnhaol o les y plentyn. Ymhellach, roedd disgybl A yn chwarae rôl fawr o fewn y grŵp wrth arwain, cynnig syniadau unigryw a cheisio cymryd dros rôl y 'captain'. Hefyd, ymddangosodd canolbwyntia, creadigrwydd a gweithgarwch dwys, credaf dyma arwyddion o lefel gynhwysiant 'uchel iawn'. Roedd disgybl C yn debyg iawn ac ymrwymo'n fawr i'r gweithgaredd trwy arwain, canolbwyntio a chyfathrebu ei syniadau yn glir i'w chyd-ddisgyblion, sy'n cyrraedd y lefel 'uchel' ar y Raddfa Leuven (cynhwysiant) yn fy marn i. Roedd rhai plant yn ddychmygol wrth chwarae rôl; creu synau, siarad mewn iaith morladron ac esgus bod yn forladron go iawn. Er hyn sylweddolais roedd disgybl B yn fwy awyddus i chwarae yn hytrach na datrys yr helfa trysor, sy'n her wrth ddysgu tu allan oblegid bod plant yn ei gysylltu gydag egwyl. Felly yn nôl Graddfa Leuven a fy asesiad nad oedd y plentyn yn ymglymedig yn y gweithgaredd, felly rhoddais lefel 'canolig' o gynhwysiant i'r disgybl.

Gwnaeth y fideo helpu ateb y cwestiwn ymchwil i raddau. Dangosodd bod y tu allan yn darparu cyfleoedd dysgu i'r disgyblion megis defnyddio gwrthrychau mawr, cael llawer o wagle i archwilio a bod yn ddychmygol. O ganlyniad i'r gwahaniaeth mewn amgylchedd roedd y plant yn cyffroes, cadw ffocws ar amcanion y gweithgaredd ac ymrwymo i'r dasg, sy'n awgrymu i mi fod angen newid yr amgylcheddau dysgu weithiau i gynnal brwdfrydedd y plant. Cyferbynnir y gwagle mawr i blant archwilio gyda'r gwagle cyfyngedig mewn amgylchedd dosbarth, bydd aros tu fewn yn anoddach i wasgaru a gwneud y mwyaf o'r helfa trysor. Mae'n wybodus fod y tu allan yn darparu cyfleoedd dysgu cyferbyniol i'r dosbarth megis cael grwpiau mwy o faint, amrywio tasgau a defnyddio gwrthrychau gwahanol.

Er hyn, mae angen mwy o ddadansoddiad o addysgu yn yr awyr agored i weld ymateb gwahanol blant i'r amgylchedd. Dengys y fideo'r ochr cadarnhaol o weithio yn yr awyr agored, felly mae angen dadansoddi'r ochr arall. Bydden syniad da i arsylwi o dan amodau gwahanol e.e. grwpiau gwahanol feintiau/oedrannau, tywydd amrywiol a gweithgareddau gwahanol.

Casgliad ac argymhellion

Wrth ddadansoddi'r fideo gan defnyddio Graddfa Leuven ac ymchwilio i'r awyr agored fel amgylchedd ddysgu mae'n glir i mi bod y tu allan yn hanfodol i ddysgu oherwydd mae'n darparu cyfleoedd ar gyfer cynnwys disgyblion a dysgu. Mwynhaodd y digybllion yr helfa trysor yn fawr iawn, roedd hyn yn eglur o'u cyffro a hapusrwydd. Gwelais y Graddfa Leuven fel offeryn ymchwilio defnyddiol a chynorthwyol wrth asesu, nodir yr emosiynau ac ymddygiad i mi edrych amdano.

Fy nharged cyntaf fel athrawes bydd greu amgylchedd dysgu positif a chynhwysol, byddai'n hybu syniad Reggio Emilia i greu amgylchedd diogel i blant archwilio'n rhydd fel dysgwyr naturiol (Thornton, 2016). Wrth ddarllen cymaint o fuddion am y tu allan fel amgylchedd dysgu megis, mae profiadau dysgu awyr agored yn aml yn cael eu cofio am oes, yn dyfodol byddaf yn defnyddio llawer o'r awyr agored (LTS, 2010). Hefyd gall dysgu yn yr awyr agored fod yn yn greadigol, heriol ac anturus ac yn helpu plant i ddysgu trwy brofiad a thyfu fel dinasyddion hyderus a chyfrifol sy'n gwerthfawrogi treftadaeth naturiol a diwylliant Cymru (LTS, 2010). Ymhellach, darparir chwarae awyr agored cyfleoedd amgen ar gyfer datblygiad emosiynol, corfforol, gwybyddol ac ysbrydol yn gymharu â'r amgylchedd adeiledig (Thomas and Harding, 2011).

Ym maes addysg mae ymchwilio yn faes hanfodol oherwydd, mae addysgwyr proffesiynol yn aml yn dysgu a darganfod pethau, yn dadansoddi gwybodaeth, yn addasu eu tactegau dysgu, yn ceisio gwella ac addasu i ofynion cyfoes (Field, 2011). Hefyd darparir atebion i heriau addysgol, yn rhoi'r cyfle i athrawon ehangu ei gwybodaeth personol, ac i ddatblygu'r cwricwlwm (Kapur, 2018). Felly, wrth edrych ymlaen fel athrawes y dyfodol byddaf yn ymchwilio i bynciau sydd o ddiddordeb i mi, strategaethau dysgu newydd ac i ehangu fy ngwybodaeth personol. Cwestiwn ymchwilio hoffwn dewis yw; 'ydy disgyblion sydd ag anghenion addysgu ychwanegol yn cael yr un cymorth yn ysgol prif ffrwd yn cymharu i ysgolion arbennig?'. Dewisais y gwestiwn yma oherwydd mae diddordeb gen i yn y maes anghenion dysgu, felly ar hyn o bryd rwy'n cyflawni nifer o gyrsiau ar lein megis anghenion addysg arbennig, seicoleg plant ac arwyddiaith i ehangu fy ngwybodaeth i fod yn athrawes gwyb. Rwy'n deall nad oes 'ymchwil berffaith' i gael, ond rwy'n hapus gyda'r hyn casglais wrth ymchwilio ac arsylwi.

Geirfa; 2,167.

Cyfeirnod

BERA., (2018). *Ethical Guidelines For Educational Research*. 4ydd rhifyn. [pdf] Llundain, tud.6. Ar gael yn: <https://moodle.uwtsd.ac.uk/pluginfile.php/362316/mod_resource/content/1/BERA-Ethical-Guidelines-for-Educational-Research_4thEdn_2018.pdf> [Darllenwyd 5 Mai 2020].

Burns, A., (2008). *Report On The Foundation Phase*. [pdf] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, tud.1-2. Ar gael yn: <[https://www.assembly.wales/Laid%20Documents/CR-LD7176%20-%20FINANCE%20COMMITTEE%20REPORT%20\(FIN\(3\)-08-R08\)%20-%20Report%20on%20the%20Foundation%20Phase-18072008-93767/cr-ld7176-e-English.pdf](https://www.assembly.wales/Laid%20Documents/CR-LD7176%20-%20FINANCE%20COMMITTEE%20REPORT%20(FIN(3)-08-R08)%20-%20Report%20on%20the%20Foundation%20Phase-18072008-93767/cr-ld7176-e-English.pdf)> [Darllenwyd 9 Mai 2020].

Chantrell, G., (2015). *Challenges, As Perceived By Teachers, To Learning Outdoors*. Vancouver Island University, tud.20-23.

Cheqdin Childcare Software, (2019). *The Leuven Scale For Early Years : What Should Childcare Providers Know*. Cheqdin. Ar gael yn: <<https://cheqdin.com/leuven-scale-for-early-years/>> [Darllenwyd 9 Mai 2020].

Cohen, L., Manion, L. And Morrison, K., (2007). *Research Methods In Education*. 6ed rhifyn. [pdf] tud.399. Ar gael yn: <https://moodle.uwtsd.ac.uk/pluginfile.php/362328/mod_resource/content/1/Research%20methods%20in%20education%20%281%29.pdf> [Darllenwyd 9 Mai 2020].

Cyfoeth Naturiol Cymru, (d.d). *Cewch Fuddion Lles Trwy Fod Yn Yr Amgylchedd Naturiol*. [poster] Ar gael yn: <<https://cdn.naturalresources.wales/media/689708/cewch-fuddion-lles-trwy-fod-yn-yr-amgylchedd-naturiol.pdf>> [Cyrchwyd 10 Mai 2020].

Darlith C.Morgan (2020). PCYDDS.

Estyn, (2011). *Dysgu Yn Yr Awyr Agored: Arfarnu Dysgu Yn Yr Awyr Agored I Blant O Dan Bump Oed Yn Y Cyfnod Sylfaen*. [pdf] tud.12. Ar gael yn:

<<https://www.estyn.gov.wales/sites/www.estyn.gov.wales/files/documents/Dysgu%20yn%20yr%20agored%3A%20%20arfarnu%20dysgu%20yn%20yr%20awyr%20agored%20i%20blant%20o%20dan%20bump%20oed%20yn%20y%20Cyfnod%20Sylfaen%20%20Medi%202011.pdf>> [Darllenwyd 10 Mai 2020].

Field, K., (2011). *The Importance Of Research For Education's Future*. Expressandstar.com. Ar gael ar: <<https://www.expressandstar.com/news/education/2011/06/14/the-importance-of-research-for-educations-future/>> [Darllenwyd 11 Mai 2020].

GIG., (2017). *Participant Information Sheet Template*. Ar gael yn: <<http://www.hra-decisiontools.org.uk/consent/examples.html>> [Cyrchwyd 10 Mai 2020].

Goddard, S., (2018). *9 reasons why outdoor learning is so important - Yellow Door*. Yellow Door. Ar gael yn: <https://www.yellow-door.net/blog/9-reasons-why-outdoor-learning-is-so-important/> [Darllenwyd 8 Mai. 2020].

Kapur, R., (2018). *Significance Of Research In Education*. [pdf] Ar gael yn: <https://www.researchgate.net/publication/323833808_Significance_of_Research_in_Education> [Darllenwyd 11 Mai 2020].

Learning and Teaching Scotland., (2010). *Curriculum For Excellence Through Outdoor Learning*. [pdf] Glasgow, tud.5. Ar gael yn: <<https://education.gov.scot/Documents/cfe-through-outdoor-learning.pdf>> [Darllenwyd 8 Mai 2020].

Learning Through Landscapes Cymru., (2014). *Y Camau Cyntaf Yn Yr Awyr Agored*. [pdf] Llywodraeth Cymru, tud.0.5. Ar gael yn: <<https://hwb.gov.wales/storage/33e4f347-685c-4da1-8c50-0abf083fcae7/y-camau-cyntaf-yn-yr-awyr-agored.pdf>> [Darllenwyd 11 Mai 2020].

Llywodraeth Cymru., (2008). *Addysgeg Dysgu Ac Addysgu*. [pdf] tud.26. Ar gael yn: <<https://hwb.gov.wales/storage/0a6c9f32-6378-4192-889e-d0b6cd84b745/addysgeg-dysgu-ac-addysgu.pdf>> [Darllenwyd 12 Mai 2020].

Llywodraeth Cymru., (2008). *Arsylwi Ar Blant*. [pdf] Yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, tud.4-21. Ar gael yn: <<https://s3-eu-west-1.amazonaws.com/hwb-live-storage/6f/9e/e5/67/6d66437cbcae802e261ebaa7/arsylwi-ar-blant.pdf>> [Darllenwyd 9 Mai 2020].

Llywodraeth Cymru., (2009). *Y Cyfnod Sylfaen: Llawlyfr Dysgu Yn Yr Awyr Agored*. [pdf] Caerdydd: Yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, tud.2-3. Ar gael yn: <<https://hwb.gov.wales/storage/47d84348-9f29-4cf5-9345-ed224ebb9849/y-cyfnod-sylfaen-llawlyfr-dysgu-yn-yr-awyr-agored.pdf>> [Darllenwyd 10 Mai 2020].

Llywodraeth Cymru., (2015). *Effective Use Of Data And Research Evidence*. [pdf] Caerdydd, tud.27. Ar gael yn: <https://dera.ioe.ac.uk/24313/2/150814-effective-use-of-data-en_Redacted.pdf> [Darllenwyd 10 Mai 2020].

Llywodraeth Cymru., (2015). *Fframwaith y Cyfnod Sylfaen*. [pdf] Caerdydd: Llywodraeth Cymru, tud.1-5. Ar gael yn: <https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-cymru-2008/cyfnod-sylfaen/fframwaith-y-cyfnod-sylfaen> [Darllenwyd 9 Mai 2020].

Lynch.P., (1992) *Issues and Trends in Outdoor Education, World Leisure & Recreation*, tud 11-12.

NSW Government, (2019). *Observation: A Guide For Use In Evaluation*. Education.nsw.gov.au. Ar gael yn: <<https://education.nsw.gov.au/teaching-and-learning/professional-learning/evaluation-resource-hub/collecting-data/observation>> [Darllenwyd 9 Mai 2020].

Thomas, F. and Harding, S., (2011). *The Role Of Play: Play Outdoors As The Medium And Mechanism For Well-Being, Learning And Development*. [pdf] tud.12. Ar gael yn: <https://uk.sagepub.com/sites/default/files/upm-assets/39350_book_item_39350.pdf> [Darllenwyd 12 Mai 2020].

Ffion Hann-Jones (1708539)

Thornton, L. (2016). *The environment as the third teacher – Early Years Teacher Status Blog*. Eyts.wp.derby.ac.uk. Ar gael yn: <https://eyts.wp.derby.ac.uk/2016/12/06/the-environment-as-the-third-teacher/> [Darllenwyd 9 Mai. 2020].

White, J. (2011). *Creating an Outdoor Learning Environment for the Early Years*. Outdoormatters.co.uk. Ar gael yn: <http://outdoormatters.co.uk/wp-content/uploads/2011/04/Article.-Creating-an-outdoor-learning-environment-for-the-early-years.pdf> [Darllenwyd 10 Mai. 2020].

Atodiad

Ffigwr 1- amserlen arsylwi

Amserlen arsylwi

Enw'r arsylwr: Ffion Hann-Jones

Dyddiad ac amser yr arsylwad:

Cwestiwn arsylwi: I ba raddau y mae'r amgylchedd dysgu awyr agored yn darparu cyfleoedd ar gyfer cynnwys disgyblion a dysgu?

Gwybodaeth am yr arsylwad

Dosbarth:

Pwnc:

Nod y wers:

Meini prawf llwyddiant:

Nifer o fewn grŵp:

Lles

	Isel iawn	Isel	Canolig	Uchel	Uchel iawn
Disgybl A					
Disgybl B					
Disgybl C					

Cynhwysiant

	Isel iawn	Isel	Canolig	Uchel	Uchel iawn
Disgybl A					
Disgybl B					
Disgybl C					

Arsylwadau/nodiadau ychwanegol:

Disgybl A:

- **Lles-** hapus ac yn llon trwy gydol yr arsylwad, cyfforddus, mynegiannol, hunan-sicrwydd, creu synau wrth chwarae (chwarae rôl morladron), hyderus (arwain, siarad llawn hyder i'r athrawes, cynnig syniadau), egniol, gwenu, siarad â'i hun (creu map trysor).
- **Cynhwysiant-** ymglymiad cyson, chwarae rôl fawr o fewn y grŵp (arwain, trafod, cynnig syniadau), gweithgarwch dwys, canolbwyntio (ffocws ar y dasg yn unig), creadigol (cynnig syniadau unigryw).


Disgybl B:

- **Lles-** chwarae gyda synau (chwarae rôl morladron), tawelach nag aelodau arall o'r grŵp, hyder wrth chwarae rôl ond ddim wrth gwblhau'r dasg, roedd pawb yn palu am y trysor ond wnaeth ef guddio, presennol yn gyson, egni (chwarae rôl), gwenu ac yn hapus.
- **Cynhwysiant-** mwy o ddiddordeb mewn chwarae rôl yn hytrach na chwblhau'r helfa trysor (gwneud synau), rhai agweddau o ymglymiad, ar y cwch roedden gynnig cyfarwyddiadau, dim yn palu fel y gweddill, helpu disgybl C is gasglu'r trysor.

Disgybl C:

- **Lles-** mynegiannol, hapus, hyderus (arwain cyson), cyfforddus o fewn y grŵp, hunan-sicrwydd, gwenu, egniol, boddhaol, cyfathrebu gwych.
- **Cynhwysiant-** llawer o syniadau, cyfathrebu'n dda, cydwybodol, symudiadau pendant, arwain, cymryd rhan yn gyson (rhoi cyfarwyddiadau), dim yn colli ffocws hawdd, annog eraill, creadigol (addurno'r bocs trysor).

Ffigwr 2- Graddfa Leuven



Ffigwr 3- Enghraifft o ffurflen caniatad gan GIG.
(GIG, 2017)

[Form to be on headed paper]

IRAS ID:

Centre Number:

Study Number:

Participant Identification Number for this trial:

CONSENT FORM

Title of Project:

Name of Researcher:

Please initial box

1. I confirm that I have read the information sheet dated..... (version.....) for the above study. I have had the opportunity to consider the information, ask questions and have had these answered satisfactorily. ☐
2. I understand that my participation is voluntary and that I am free to withdraw at any time without giving any reason, without my medical care or legal rights being affected. ☐
3. (If appropriate) I understand that relevant sections of my medical notes and data collected during the study, may be looked at by individuals from [company name], from regulatory authorities or from the NHS Trust, where it is relevant to my taking part in this research. I give permission for these individuals to have access to my records. ☐
4. (If appropriate) I understand that the information collected about me will be used to support other research in the future and may be shared anonymously with other researchers. ☐
5. (If appropriate) I agree to my General Practitioner being informed of my participation in the study. / I agree to my General Practitioner being involved in the study, including any necessary exchange of information about me between my GP and the research team. ☐
6. (If appropriate) I understand that the information held and maintained by _____ *[(enter name of organisation(s) that will be providing you with data, including any NHS/HSC organisations)]* may be used to help contact me or provide information about my health status. ☐
7. I agree to take part in the above study. ☐

Name of Participant Date Signature